Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ruthin School

**Ffordd Yr Wyddgrug**
**Rhuthun**
**Sir Ddinbych**
**LL15 1EE**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn â Ruthin School

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ruthin School |
| Statws y perchennog | Mae'r ysgol yn gwmni cyfyngedig preifat a berchnogir gan Ruthin Education Limited |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Uwchradd annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 239 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 111 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 11/02/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 21/10/2024 |

Cyd-destun yr ysgol:

Mae Ruthin School yn ysgol ddydd ac ysgol breswyl gydaddysgol ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 oed. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar gyrion Rhuthun, sef tref farchnad fach yn Nyffryn Clwyd, Sir Ddinbych.

Mae'r ysgol yn gwmni cyfyngedig dan oruchwyliaeth y Bwrdd Rheoli. Mae 239 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd, y mae 128 ohonynt yn ddisgyblion chweched dosbarth. Mae ychydig dros hanner yr holl ddisgyblion yn ddisgyblion preswyl. Daw disgyblion dydd o ddalgylch eang sy'n cynnwys Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Sir Gaer.

Mae tua 74% o ddisgyblion yr ysgol o gefndir ethnig lleiafrifol, y mae dros hanner ohonynt yn ddisgyblion Tsieineaidd. Mae 141 o ddisgyblion, yn cynnwys 85 yn y chweched dosbarth, yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol.

Mae'r ysgol yn dewis disgyblion i fynychu'r ysgol ar sail gallu a chyrhaeddiad academaidd. Mae'r ysgol yn gofyn bod disgyblion dramor yn meddu ar lefel dda o Saesneg cyn dechrau unrhyw gwrs arholi. Mae'r chweched dosbarth yn ddetholus. Disgwylir bod disgyblion wedi cyflawni graddau uchel mewn TGAU i ymgymryd â chyrsiau Safon Uwch.

Mae tua 45% o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn derbyn ysgoloriaethau neu fwrsarïau.

Cynhaliwyd arolygiad craidd diwethaf yr ysgol ym mis Chwefror 2019. Ers yr arolygiad craidd, mae'r ysgol wedi ymateb yn llwyddiannus i arolygiad â ffocws. Ers

hyn, mae'r ysgol wedi cael pedwar pennaeth newydd ac mae'r uwch dîm arweinyddiaeth a'r Bwrdd Rheoli wedi cael eu hailstrwythuro.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Ebrill 2024.

## Crynodeb

Ers penodi'r pennaeth, gwnaed cynnydd sylweddol yn meithrin ymddiriedaeth a chydweithio ymhlith staff, disgyblion a rhieni, gan feithrin cred gref yng ngweledigaeth yr ysgol. Er bod gan yr ysgol gynlluniau strategol sy'n cefnogi'r weledigaeth hon, megis dechrau cael eu rhoi ar waith y mae llawer o fentrau, sy'n ei gwneud yn rhy gynnar i asesu eu heffaith gyffredinol ar waith yr ysgol.

Mae disgyblion yn mwynhau bod yn rhan o gymuned amrywiol, gyda chyfleoedd am rolau arwain, ac maent yn mwynhau cwricwlwm eang a chytbwys. Mae rhaglenni fel cyrsiau dewisol a gweithgareddau cyd-gwricwlaidd yn cyfoethogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae ffocws da i wersi, ac maent wedi'u strwythuro'n dda, gan feithrin perthnasoedd da rhwng disgybl ac athro, er bod diffyg cyfleoedd ar gyfer dysgu'n annibynnol mewn tua hanner y gwersi. Mae arferion asesu'r ysgol yn darparu adborth amserol i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn nodi beth mae angen i ddisgyblion ei wneud er mwyn gwneud mwy o gynnydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau ysgrifennu a dadansoddol cryf, gan gwblhau tasgau'n effeithiol, fel anodi testunau a mynegi syniadau'n greadigol trwy gofnodion dyddiadur. Mae medrau gwrando yn dda, ar y cyfan, er bod medrau llafaredd yn llai datblygedig, ac mae llawer o ddisgyblion yn betrusgar i roi ymatebion manwl. Mewn mathemateg, mae disgyblion yn dangos gallu datblygedig, gan symud ymlaen o algebra sylfaenol i ddatrys problemau cymhleth. Caiff medrau corfforol, artistig a cherddorol disgyblion eu meithrin, gan gynnwys archwilio prosiectau creadigol yn annibynnol. Er bod disgyblion yn meddu ar fedrau digidol cryf, nid ydynt yn gwneud defnydd digonol ohonynt ar draws pynciau.

Mae arferion diogelu yn gadarn, gyda thîm dynodedig yn goruchwylio lles disgyblion a hyfforddiant rheolaidd yn sicrhau bod staff yn cael eu paratoi'n dda i fynd i'r afael â phryderon. Fodd bynnag, nid yw gwiriadau addasrwydd parhaus ar gyfer staff yn cydymffurfio â newidiadau deddfwriaethol diweddar.

Mae strwythurau llywodraethu yn gadarn. Fodd bynnag, yn sgil nifer uchel y newidiadau mewn arweinyddiaeth yn ddiweddar, nid yw'r Bwrdd Rheoli wedi cynnal trefn drylwyr o ran craffu ar waith yr ysgol. O ganlyniad, nid aethpwyd i'r afael â rhai materion cydymffurfio o hyd.

Nid yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

## Prif werthusiad

### Dechreuadau newydd a chamau presennol

Yn y cyfnod byr ers ymuno â'r ysgol, mae'r pennaeth wedi gweithio'n ddiflino i sefydlu perthnasoedd gwaith cadarn a chynhyrchiol â staff, disgyblion a rhieni, ac wedi ennill dealltwriaeth effeithiol o gyd-destun lleol a chenedlaethol yr ysgol. O ganlyniad, mae gan bron bob aelod o gymuned yr ysgol lefel uchel o ffydd yn ei gweledigaeth, ac optimistiaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr wedi sefydlu ethos effeithiol a rennir ac uchelgeisiau clir ar gyfer eu disgyblion, wedi'u seilio ar safonau academaidd a bugeiliol uchel. Mae staff ac arweinwyr yn teimlo bod pobl yn ymddiried ynddynt, yn gwrando arnynt, a'u bod yn elwa ar gydbwysedd hynod effeithiol rhwng ymreolaeth ac atebolrwydd yn eu rolau.

Mae gan yr uwch dîm arweinyddiaeth, a sefydlwyd yn ddiweddar, ffocws cytbwys ar faterion strategol a gweithredol, fel ei gilydd. O ganlyniad i ddyrannu rolau a chyfrifoldebau'n glir, mae uwch arweinwyr yn cyflawni eu rolau, yn unigol ac ar y cyd, yn effeithiol ac yn effeithlon. Yn eu tro, mae gan staff hyder yng ngwaith uwch arweinwyr, ac maent yn glir ynglŷn ag ef.

Cefnogir gweledigaeth ac uchelgais arweinwyr ar gyfer yr ysgol gan strategaethau strategol ac ymarferol priodol. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran gweithredu llawer o'r gweithdrefnau a'r arferion i gyflawni'r uchelgeisiau hyn, ac mae'n rhy gynnar i werthuso'u heffaith ar waith yr ysgol.

Mae arweinwyr canol yn grŵp cydlynol a chydweithredol. Maent yn dechrau defnyddio'r ymreolaeth a roddwyd iddynt gan uwch arweinwyr i ddatblygu arfer o fewn cyfadrannau, ac ar eu traws. Maent yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ffocws strategol uwch arweinwyr ar ddatblygiad staff ac yn teimlo bod hyn wedi cael effaith drawsnewidiol ar forâl staff.

Mae staff yr ysgol yn cynnwys athrawon hynod gymwys, profiadol, ac arbenigol, y mae sawl un ohonynt yn dod â phrofiad helaeth o fyd diwydiant ac ymchwil, a/neu raddau ôl-raddedig.

Mae tîm sefydledig ac effeithiol o arweinwyr canol ac uwch arweinwyr yn goruchwylio gwaith diogelu'r ysgol o ddydd i ddydd. Mae'r unigolyn diogelu dynodedig a'i dîm o ddirprwyon yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod lles disgyblion a rheoli unrhyw bryderon parhaus. Caiff penderfyniadau ynghylch materion diogelu eu gwneud ar y cyd gan y tîm hwn, ac o ganlyniad, mae hyn yn helpu sicrhau bod camau amserol a phriodol yn cael eu cymryd gan yr ysgol, yn cynnwys cysylltiad priodol ag asiantaethau allanol, ac atgyfeiriadau iddynt. Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer cofnodi a mynd ar drywydd disgyblion sydd efallai'n absennol o'r ysgol.

Caiff staff hyfforddiant diogelu addas wedi iddynt gael eu penodi, ac mae hyfforddiant diweddaru dilynol yn eang a rheolaidd. Mae cyfran fawr o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu, sydd gyfwerth â'r hyfforddiant sy'n ofynnol i fod yn swyddog arweiniol diogelu. O ganlyniad, mae gan staff ddealltwriaeth glir o sut i nodi ac adrodd am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am les disgyblion neu ymddygiad gweithwyr proffesiynol eraill.

Mae gan yr ysgol brosesau cadarn i sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio mwy diogel yn cael eu cwblhau ar gyfer yr holl staff newydd a benodir. Fodd bynnag, nid yw gwiriadau rheolaidd i sefydlu addasrwydd parhaus staff wedi cyd-fynd yn brydlon â newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth, ac nid ydynt yn bodloni gofynion statudol.

## Profiad disgyblion

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod bod yna aelodau staff a fydd yn eu cynorthwyo os oes ganddynt unrhyw bryderon.

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau bod yn rhan o gymuned yr ysgol. Maent yn gwerthfawrogi'r gymuned amrywiol y maent yn perthyn iddi a'r cyfleoedd a ddarperir i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill ymhellach, er enghraifft trwy 'ddiwrnod rhyngwladol' llwyddiannus yn dathlu gwahanol genedligrwydd, bwyd a thraddodiadau.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddiried yn eu hathrawon, ac mae ganddynt berthnasoedd gwaith adeiladol â nhw. Mewn gwersi, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn ymgysylltu'n bwrpasol â thasgau gosod. Mae llawer ohonynt yn dal ati i ganolbwyntio am gyfnodau amser estynedig, ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at eu dysgu. O roi'r cyfle iddynt, mae lleiafrif o ddisgyblion yn dangos hyder mewn cyfrannu at drafodaethau dosbarth a grŵp bach.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddal swyddi cyfrifol, fel swyddogion a chapteiniaid tai. Mae'r rolau hyn yn darparu sefyllfaoedd dilys i ddisgyblion ddatblygu eu hunanhyder a'u medrau arwain. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r profiadau hyn ac yn teimlo bod staff yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau at fywyd ysgol, er enghraifft trefnu digwyddiadau i gefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, a chynorthwyo staff i drefnu digwyddiadau chwaraeon trwy gydol y flwyddyn ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer disgyblion. Gall disgyblion hŷn ddewis ystod eang o bynciau mewn TGAU a Safon Uwch, ac ychwanegir pynciau newydd i ymateb i'r galw gan ddisgyblion, er enghraifft seicoleg ac ystod o bynciau'r celfyddydau.

Caiff y cwricwlwm ei ehangu gan raglen cyrsiau dewisol yr ysgol sy'n cynnig ystod o gyrsiau i ddisgyblion, o fewn amserlen yr ysgol, sy'n datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau mewn amrywiaeth o feysydd. Er enghraifft: gall disgyblion yn Nosbarth 3 ddewis dysgu medrau coginio sylfaenol ac ymuno â'r cwrs 'cyflwyniad i economeg'; mae disgyblion yn Nosbarth 4 yn dysgu medrau ysgrifennu CV a medrau taenlen sylfaenol; a gall disgyblion yn y chweched dosbarth astudio modelu mathemategol a ffisioleg.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau cyd-gwricwlaidd sy'n cyfrannu at ddatblygiad personol a chymdeithasol a lles disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion hŷn ddechrau cynnal eu gweithgareddau eu hunain, a nifer helaeth o dripiau a gweithgareddau penwythnos, yn benodol ar gyfer disgyblion preswyl. O ganlyniad, mae profiadau academaidd a chyd-gwricwlaidd disgyblion yn eang a chynhwysfawr.

**Ciplun 1: Cynllunio cyfleoedd dysgu effeithiol i baratoi disgyblion ar gyfer bywyd oedolyn**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn ymgorffori ystod o gyfleoedd dysgu sy’n cefnogi datblygiad personol disgyblion yn effeithiol iawn. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) strwythuredig ar waith ar draws yr ysgol, ac mae rhaglen fugeiliol sy’n canolbwyntio ar ddatblygiad cymeriad wedi cael ei datblygu’n fewnol, sydd wedi’i theilwra i ddisgyblion yn Nosbarthiadau 1 i 3. Mae disgyblion yn myfyrio ar eu profiadau ac yn meddwl yn ddwys am eu datblygiad personol eu hunain. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu hyder a hunanymwybyddiaeth dros gyfnod, gan eu galluogi i ymgymryd â swydd arwain a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau sy’n ehangu eu gorwelion. Er enghraifft, mae disgyblion yn Nosbarthiadau 1 a 2 yn cymryd rhan yn y wobr gelf, ac fe gaiff disgyblion yn y chweched dosbarth gyfleoedd i fynd ar brofiad gwaith a gwrando ar siaradwyr gwadd arbenigol. Mae hyn yn ychwanegu at raglen addysg gyrfaoedd yr ysgol, a gyflwynir gan diwtoriaid dosbarth ar draws yr ysgol, gan arwain at ymagwedd gadarnhaol a chynhwysfawr at addysg gyrfaoedd, paratoi ar gyfer y brifysgol a pharatoi ar gyfer bywyd oedolyn.

Mae’r rhaglen cyrsiau dewisol, gyd-gwricwlaidd ac ABCh yn cyfuno’n dda i ddarparu ar gyfer datblygiad cyfannol y disgyblion, ac mae’n gryfder yn yr ysgol.

Mae bron pob un o’r gwersi yn ddigynnwrf a phwrpasol, gan alluogi athrawon i ddatblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol â disgyblion y maent yn eu hadnabod yn dda iawn. Mae athrawon yn atgyfnerthu dealltwriaeth o eiriau a thermau allweddol yn hynod effeithiol, sydd o fudd i’r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn enwedig y rhai sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cymhwyso’u gwybodaeth a’u dealltwriaeth bynciol o arholiadau cyhoeddus yn hynod effeithiol wrth strwythuro’u gwersi, gan alluogi disgyblion i gyflawni canlyniadau arbennig o dda mewn arholiadau cyhoeddus a symud ymlaen i’w dewis prifysgolion. Mae gan yr athrawon hyn ddisgwyliadau uchel ac maent wedi ymrwymo i gefnogi dysgu’r disgyblion.

Mewn ychydig o wersi, lle mae cynnydd disgyblion gryfaf, mae athrawon yn darparu gweithgareddau annibynnol sydd wedi’u gwreiddio mewn cyd-destunau dilys. Mae’r gweithgareddau hyn yn darparu lefelau teilwredig o her ar gyfer disgyblion ac yn eu galluogi i wneud cynnydd ar eu cyflymdra’u hunain. Pan mae hyn yn digwydd, mae athrawon yn gweithredu fel hwyluswyr effeithiol, yn dilysu ymagweddau a deilliannau disgyblion, tra’n caniatáu ar gyfer graddau priodol o hunangyfeirio. Fodd bynnag, mewn tua hanner y gwersi, caiff dysgu ei gyfyngu gan yr athro, sy’n golygu bod cyfleoedd yn cael eu colli i ddisgyblion ddatblygu medrau dysgu’n annibynnol neu gydweithio â disgyblion eraill.

Mae ychydig iawn o athrawon yn defnyddio holi agored ac ymatebol yn effeithiol i yrru’r dysgu a darparu her briodol. Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio holi i wirio a gwerthuso dealltwriaeth disgyblion a’u gallu i alw gwybodaeth i gof.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth effeithiol ar lafar i ddisgyblion, er enghraifft pan fydd gwaith yn cael ei gwblhau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn derbyn adborth manwl ar brofion ac asesiadau rheolaidd, sy’n eu helpu i ddeall lefel

bresennol eu cyrhaeddiad. Fodd bynnag, nid yw adborth ysgrifenedig cyffredinol bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud er mwyn gwneud cynnydd. Yn ychwanegol, mae disgwyliad cyfyngedig i ddisgyblion ymateb i adborth ysgrifenedig, ac nid yw athrawon bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio cynllunio yn y dyfodol.

**Dysgu**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n glir ac yn cwblhau tasgau ysgrifenedig yn gywir. Er enghraifft, mae disgyblion Dosbarth 2 yn amlygu ac yn anodi detholiad o 'The Dead of Winter' gan Chris Priestley i ddangos sut mae'r awdur yn creu naws ac awyrgylch, ac mae disgyblion Dosbarth 4 sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol yn creu cerddi acrostig dychmygus gan ddefnyddio ansoddeiriau cymhleth yn gywir i ddisgrifio'u personoliaeth eu hunain. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o dechnegau yn gywir wrth ysgrifennu'n greadigol. Er enghraifft, pan fydd disgyblion Dosbarth 2 yn ysgrifennu cofnodion dyddiadur am eu profiad fel 'sgwarnog' yn yr Helfa Bapurau ym 1885 yn Ruthin School, ac yn Nosbarth 3 pan fydd disgyblion yn ailysgrifennu 'The Charge of the Light Brigade' mewn cyd-destun cyfoes.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau ysgrifennu a chofnodi wrth grynhoi a chipio deilliannau o drafodaethau dosbarth. Er enghraifft, mae disgyblion Dosbarth 4 yn defnyddio mapiau meddwl yn dda i drefnu ac archwilio themâu yn 'Of Mice and Men'. Yn y chweched dosbarth, mae bron pob un o'r disgyblion yn strwythuro nodiadau hynod effeithiol ac yn ymateb i gwestiynau arholiad.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio terminoleg sy'n benodol i bwnc yn hynod gywir, oherwydd bod athrawon yn ei hatgyfnerthu'n gyson. Mae mwyafrif y disgyblion yn cymryd gofal wrth gyflwyno'u gwaith ysgrifenedig.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n ofalus ac yn sylwgar a pharchus ar eu cyfoedion ac oedolion, er enghraifft wrth wrando ar ddisgyblion cyfnewid o Japan yn siarad am eu bywydau yn llywyddiaeth Hiroshima.

Ni chaiff medrau llafaredd disgyblion eu datblygu cystal gan athrawon. O roi'r cyfle iddynt, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynegi eu syniadau â rhugldег. Er enghraifft, mae disgyblion Dosbarth 4 yn adrodd dyfyniadau o 'Of Mice and Men' yn hyderus ac yn mynd ymlaen i esbonio'u hystyr, er enghraifft "live offa the fatta the lan" fel cyfeiriad at gyfoeth, annibyniaeth a'r freuddwyd Americanaidd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad â diben a llefariad clir. Mae eu meddyliau yn drefnus a datblygedig. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion yn amharod i ymateb i gwestiynau gan yr athro. Mae'r rhai sy'n ymateb yn gwneud hynny ag ychydig eiriau a manylder annatblygedig.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau mathemategol datblygedig o gymharu â'u hoedran. O ganlyniad i gynllunio'r cwricwlwm yn hynod effeithiol, maent yn datblygu'r medrau hyn yn gyflym ac yn gynyddol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn Nosbarth 1 yn newid gwerthoedd yn fynegiannau algebraidd yn hyderus, ac yn cyfrifo'r canlyniad yn eu pen yn gywir. Erbyn diwedd Dosbarth 5, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trin mynegiannau i ddatrys hafaliadau cynyddol gymhleth. Wrth iddynt symud i mewn i'r

chweched dosbarth, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n dewis astudio mathemateg yn gwneud defnydd rhugl ac effeithiol o ystod eang o wybodaeth, cysyniadau a thechnegau mathemategol. Maent yn cymhwyso'r rhain â lefelau cynyddol o annibyniaeth a dyfeisgarwch mewn amrywiaeth o gyd-destunau. O ganlyniad, mae eu hatebion i broblemau cymhleth yn aml yn gain ac arloesol.

O roi'r cyfle iddynt, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau mathemategol yn effeithiol ar draws y cwricwlwm i'r lefel sy'n ofynnol. At ei gilydd, fodd bynnag, ni chaiff y cyfleoedd hyn eu hymgorffori'n gadarn ar draws y cwricwlwm.

Mae bron pob un o ddisgyblion Dosbarth 1 a 2 yn datblygu eu medrau creadigol yn annibynnol ac yn frwdfrydig wrth iddynt weithio tuag at wobr gelf. Mae disgyblion yn dewis gweithgareddau yn annibynnol, yn cynnwys ail-greu darn bywyd llonydd yn arddull Sara Cwynar a datblygu medrau pensaernïol wrth iddynt adeiladu model 3D o'u cegin ddelfrydol. Mae disgyblion Dosbarth 1 yn defnyddio'u medrau meddwl yn effeithiol i ddylunio ac adeiladu dyfais golchi dwylo i atal afiechydon dŵr rhag lledu yng Nghenia. Yn Nosbarth 3, mae disgyblion yn datblygu eu medrau cerddorol yn dda; er enghraifft, mae llawer ohonynt yn chwarae cordiau fel triad, ac mae disgyblion eraill yn dechrau datblygu chwarae'r cord yn felodaidd. Mae disgyblion yn ychwanegu geiriau ac yn canu'n frwdfrydig. Maent yn dal yr alaw yn gywir gydag llefariad ac ynganiad da.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o dechnolegau a chymwysiadau digidol yn hyderus. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r medrau hyn ym meysydd ehangach y cwricwlwm yn llai datblygedig.

Ar draws yr ysgol, ceir ystod o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau corfforol, ac mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyflym. Er enghraifft, mae merched Dosbarth 4 sydd wedi dewis pêl-droed dewisol yn datblygu eu medrau cicio yn benodol i sefyllfa, er enghraifft lobiau a siotiau camedd troed, a'u gwydnwch corfforol yn hynod effeithiol trwy ddilyniannau o weithgareddau wedi'u cynllunio'n dda.

## Y ffordd ymlaen

O ganlyniad i gasglu tystiolaeth uniongyrchol yn briodol trwy deithiau dysgu ac arsylwadau, mae arweinwyr ar bob lefel yn dechrau datblygu dealltwriaeth glir a chywir o effeithiolrwydd a chysondeb arferion ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, yn rhannol oherwydd newydd-deb yr uwch dîm arweinyddiaeth, mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran rhoi camau sy'n deillio o weithgareddau sicrhau ansawdd a hunanwerthuso ar waith, ac ni ellir gwerthuso'u heffaith eto. Er enghraifft, megis dechrau datblygu dealltwriaeth ar y cyd o gynnydd a photensial disgyblion y mae'r ysgol, a phrosesau addas i fonitro hyn.

Mae cynlluniau datblygu a gwella'r ysgol yn nodi camau clir a strwythuredig sy'n cael eu llywio gan hunanwerthuso. Mae'r cynlluniau hyn yn datblygu mewn modd sy'n gydweithredol briodol gyda mewnbwn gan staff ac arweinwyr ar bob lefel. O ganlyniad, mae bron pob un o'r staff yn dra chyfarwydd â'r cynlluniau, ac mae lefel y gefnogaeth iddynt yn uchel.

Mae staff addysgu wedi dechrau elwa ar ffocws a sefydlwyd yn ddiweddar ar ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae ystod y cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd ar

gael, yn fewnol ac yn allanol, wedi ehangu'n sylweddol yn ddiweddar iawn. Ceir cysylltiadau clir rhwng nodau datblygu'r ysgol a'r cynnig hyfforddiant. Fodd bynnag, nid yw prosesau i werthuso effaith y cyfleoedd hyn wedi cael eu hymgorffori eto.

Mae trefn lywodraethu'r ysgol yn strwythuredig, gyda rolau clir ar gyfer y perchennog, y bwrdd rheoli a'i is-bwyllgorau, a'r pennaeth. Mae'r bwrdd rheoli ac uwch arweinwyr a benodwyd yn ddiweddar wedi sefydlu perthynas waith effeithiol yn gyflym ac yn gadarn. Mae'r perthnasoedd hyn yn ategu cydweithio priodol i bennu blaenoriaethau a chytuno ar gynlluniau gweithredu realistig. Fodd bynnag, yn ystod cyfnodau diweddar o newid sylweddol mewn arweinyddiaeth, nid yw elfennau o waith y bwrdd yn gysylltiedig â chraffu a sicrhau ansawdd wedi bod yn ddigon cadarn a manwl i sicrhau parhad yng ngweithrediadau'r ysgol, a'u hansawdd. O ganlyniad, ni nodwyd materion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio â safonau statudol yn yr adroddiad hwn, ac ni aethpwyd i'r afael â nhw. Ymhellach, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion a adawyd adeg yr arolygiad craidd diwethaf.

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae'r rheoliadau hyn yn ei wneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

**Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Er bod yr ysgol yn bodloni bron pob un o'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024, dylai'r ysgol:

- Sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 [14]

**Addasrwydd perchnogion a staff**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Er bod yr ysgol yn bodloni bron pob un o'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024, dylai'r ysgol:

- Sicrhau addasrwydd unigolion a benodir yn aelodau staff [20(2a-g)]
- Sicrhau bod pob un o’r staff wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o fewn y 3 blynedd ddiwethaf [23(a)]

**Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Nid yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

Er bod yr ysgol yn bodloni bron pob un o’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon, er mwyn cydymffurfio’n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024, dylai’r ysgol:

- Sicrhau bod y cyflenwad dŵr yn bodloni gofynion rheoliadau safleoedd ysgolion [27(a)]
- Sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau diogelwch ar y safle effeithiol ar gyfer y tir a’r adeilad [27(d)]
- Sicrhau nad yw’r eiddo a’r llety preswyl mewn cyflwr sy’n niweidiol i iechyd neu’n niwsans [27(i)]

**Darparu gwybodaeth**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Y modd yr eir i’r afael â chwynion**

Mae’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Diogelu

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu’r ysgol i barhau i wella:

A1 Cryfhau llywodraethu i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio’n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024

A2 Sefydlu dealltwriaeth a rennir o gynnydd disgyblion a sicrhau bod addysgu ac asesu yn cefnogi hyn

A3 Ymgorffori ymagweddau wedi’u sefydlu o’r newydd at sicrhau eu bod yn cael effaith gadarnhaol yn holl feysydd gwaith yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Gan nad yw’r ysgol yn bodloni’r safonau sy’n ofynnol ar gyfer cofrestru, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i’r perchennog gyflwyno cynllun gweithredu o fewn cyfnod amser penodol. Bydd y cynllun hwn yn amlinellu’r camau y bydd yr ysgol yn eu cymryd i fodloni’r safonau, a’r raddfa amser iddi gwblhau pob cam. Wedyn, gallai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn gefnogi’r ysgol trwy broses wella.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu'r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle bo'n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/12/2024